# Disgrifiad Swydd: Bydwraig/Nyrs/Swyddog Ymchwil Glinigol

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Yr Ysgol Feddygaeth |
| **Cyflog:** | Gradd 8 £39,388 - £45,413 y flwyddyn pro rata ynghyd â buddion USS. **£21.55 yr awr** |
| **Oriau Gwaith:** | Contract dim oriau sefydlog |
| **Nifer y Swyddi:** | 10 |
| **Contract:** | Swydd am gyfnod penodedig yw hon, tan 30 Medi 2026 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton Prifysgol Abertawe ac yn y cyffiniau yn Abertawe. |

**Prif Bwrpas y Swydd**

Mae prosiect MAGENTA, a ariennir gan Ymddiriedolaeth Wellcome, ym Mhrifysgol Abertawe'n ymdrin â bwlch hollbwysig wrth ddeall sut mae ffactorau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, yn enwedig gwres, yn effeithio ar iechyd mamau a babanod newydd-anedig mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru a Llundain. Nod yr astudiaeth cysylltu data a samplu biolegol drawsddisgyblaethol hon yw deall effeithiau cysylltiad â gwres yn ystod beichiogrwydd, gan ystyried ffactorau cymdeithasol-ddemograffig, safonau tai a dylanwadau amgylcheddol eraill. Drwy gyfuno dadansoddi data ar raddfa fawr â samplu biolegol, mae MAGENTA am ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r cysylltiad rhwng ffactorau amgylcheddol a chanlyniadau iechyd, gan arwain o bosib at strategaethau a pholisïau iechyd cyhoeddus mwy gwybodus. Rydym yn recriwtio tîm o wyddonwyr data, daearyddwyr, ystadegwyr, imiwnolegwyr ac arbenigwyr yn y labordy i'n helpu i gynnal ymchwil arloesol drwy ddefnyddio data cysylltiedig a thechnegau biosamplu yng Nghymru a Llundain. Byddwch yn cael cyfle i weithio ochr yn ochr ag arweinwyr ym maes data cysylltiedig, ystadegau, epidemioleg ac imiwnoleg ddynol, ac ymuno â chymuned ymchwil fywiog gan ddefnyddio isadeiledd ymchwil a chyfleusterau ymchwil fiofeddygol banc data SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw), sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, yn y Sefydliad Gwyddor Bywyd ym Mhrifysgol Abertawe.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda'r tîm Bydwragedd Ymchwil ar Gampws Singleton ym Mhrifysgol Abertawe ac yn Ysbyty Singleton ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Bydd yn gyfrifol am asesu a chynnal gweithdrefnau clinigol ar gyfer cyfranogwyr astudiaeth ymchwil, yn unol â'r amcanion a'r protocolau a nodir ym MAGENTA. Bydd y swydd yn cynnwys recriwtio, addysgu a monitro cyfranogwyr yr astudiaeth.

Bydd gwaith deiliad y swydd yn cynnwys:

1. Cyfrannu at gyflwyno prosiect MAGENTA yn llwyddiannus.
2. Meddu ar wybodaeth arbenigol mewn ymchwil a/neu ymarfer clinigol sy'n galluogi deiliad y swydd i weithio'n annibynnol e.e. profiad blaenorol fel bydwraig/nyrs/swyddog ymchwil glinigol neu'n meddu ar wybodaeth arbenigol mewn lleoliad gofal priodol.
3. Gweithio'n annibynnol i gynorthwyo wrth reoli llwyth achosion cyfranogwyr yr astudiaeth, wrth weithio fel rhan o dimau amlddisgyblaethol yn y prosiect ymchwil ehangach, ym Mhrifysgol Abertawe a'r gyfarwyddiaeth obstetreg a gynaecoleg ym Mwrdd Iechyd y Brifysgol. Bydd hyn yn sicrhau bod ymchwiliadau a gweithdrefnau'n cael eu cynnal yn unol â phrotocolau astudio, er mwyn sefydlu cymhwysedd a diogelwch cleifion mewn gwaith ymchwil.
4. Cynnal cyfathrebu effeithiol â'r cleifion/cyfranogwyr, teuluoedd/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu.
5. Defnyddio gwybodaeth glinigol berthnasol i nodi cleifion sy'n addas ar gyfer astudiaethau MAGENTA, gan ddefnyddio meini prawf cynnwys ac eithrio a defnyddio cofnodion y GIG, i hwyluso recriwtio i astudiaethau ymchwil amrywiol sy'n cyd-fynd â hyn.

6. Gweithio gyda thîm ehangach MAGENTA i ddatblygu strategaethau i oresgyn rhwystrau i recriwtio a datrys problemau eraill o ran yr astudiaethau.
7. Bod yn gyfrifol am ofalu am gyfranogwyr y gwaith ymchwil yn y maes ymarfer perthnasol a defnyddio cyfleoedd i hybu iechyd ac addysg i gleifion.
8. Cyfrannu at ymchwil ac ymgymryd â hi mewn modd rhagweithiol, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data a chyflwyno canlyniadau, gan ddangos rhywfaint o annibyniaeth wrth bennu pwyslais a chyfeiriad yr ymchwil honno.
9. Asesu a chynnal gweithdrefnau clinigol ar gyfer cyfranogwyr yr astudiaeth. Mae hyn yn cynnwys:
    - sicrhau bod ymchwiliadau sy'n benodol i'r gwaith ymchwil yn cael eu cynnal yn unol â phrotocolau'r astudiaeth a chael canlyniadau er mwyn sefydlu cymhwysedd a diogelwch i ddechrau ar yr astudiaeth ymchwil.
    - cydlynu a chynnal ymweliadau gan gyfranogwyr (ar y safle ac oddi arno).
    - cynnal asesiadau corfforol, cymryd samplau amrywiol megis gwaed/troeth a phrosesu yn unol â phrotocolau.
    - sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer gofal cleifion/cyfranogwr a phrosesau ymchwil, gan gydnabod pwysigrwydd preifatrwydd, urddas ac amrywiaeth.
    - cyfrannu at fonitro safonau clinigol yn y tîm ymchwil.
    - sicrhau y cofnodir digwyddiadau andwyol a hynod andwyol ac yr adroddir arnynt tra bydd y cyfranogwr yn rhan o'r astudiaeth ymchwil yn unol â phrotocol yr astudiaeth, polisïau lleol a gofynion rheoliadol.
    - cyfeirio at arbenigwyr eraill fel y bo angen i sicrhau'r gofal cleifion gorau.
    - sicrhau dyletswydd gofal personol o ran cyfarpar ac adnoddau a ddefnyddir yn ystod y gwaith.
10. Rhoi rhaglen o ofal ar waith, gan gynnig cyngor, gwybodaeth, addysgu a chymorth i gleifion (a phobl arwyddocaol iddynt) o ran yr astudiaethau - gan sicrhau dilyniant mewn gofal drwy gydol yr astudiaeth ymchwil.
11. Casglu, dogfennu a chynnal cofnodion clir, cywir a chryno o ddata cleifion/cyfranogwyr - gan gynnwys y defnydd o systemau casglu data electronig - yn unol â'r gofynion rheoleiddiol gan gynnwys y Ddeddf Diogelu Data, er mwyn trafod data sensitif cleifion.
12. Uwchgyfeirio materion perfformiad parhaus o ran yr astudiaeth i'r Fydwraig Ymchwil Arweiniol.
13. Cydweithredu ag archwilio mewnol ac allanol, monitro data a sicrhau ansawdd drwy weithio gydag ymchwil a datblygu, noddwyr, y rhai hynny sy'n monitro'r astudiaeth a chyrff allanol.
14. Cefnogi a chymryd rhan mewn archwiliadau astudio o ran ymchwil a datblygu gan geisio adborth ar wersi a ddysgwyd a gwella'r gwasanaeth a ddarperir.
15. Helpu i gau'r astudiaeth a pharatoi canlyniadau ymchwil i'w cyflwyno fel posteri, crynodebau, papurau neu gyflwyniadau gwyddonol.
16. Ymateb i ymholiadau am ddata a gynhyrchir gan y tîm ymchwil yn amserol ac yn briodol.
17. Mynd i gyfarfodydd perthnasol a rhoi adroddiadau cynnydd rheolaidd ar ymchwil.
18. Eirioli dros waith ymchwil a chynnig addysg a hyfforddiant ar brosiectau ymchwil i bartïon â diddordeb pan fydd angen.
19. Gweithredu fel adnodd a model rôl ar gyfer pob agwedd ar ymarfer clinigol ymchwil i fwyafu gofal cleifion ac ymarfer clinigol.
20. Dangos hunangymhelliant a defnyddio menter bersonol er mwyn dod o hyd i ffyrdd addas o fynd i'r afael â heriau, a gofyn am arweiniad yn ôl yr angen.
21. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran, mewn mannau eraill yn y Brifysgol, a'r tu hwnt ym myd diwydiant a masnach ac yn y byd academaidd.

| | |
|---|---|
| | 22. Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygu perfformiad a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>23. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>24. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cofnodion llyfrau log y prosiect yn cael eu hanfon at y Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 1. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio<br>2. cadarnhaol. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>3. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>4. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | 1. Ymarferydd Gofal Iechyd Perthynol, Bydwraig Gofrestredig neu radd iechyd/cymhwyster ôl-raddedig.<br>2. Wedi cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gyda'r gallu i ymarfer yn unol â chôd proffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.<br>3. Profiad diweddar ar lefel Band 6 mewn maes clinigol perthnasol.<br>4. Gwybodaeth arbenigol am ddeddfwriaeth ymchwil, GCP a'r Fframwaith Cenedlaethol.<br>5. Gwybodaeth am derminoleg clinigol ac ymchwil.<br>6. Profiad o gynnal ymchwil glinigol a/neu brofiad clinigol helaeth mewn maes penodol. Gwiriad Safonol/Uwch gyda'r DBS gan gynnwys gwiriad o'r Rhestri Gwahardd Oedolion a Phlant fel sy'n berthnasol i'r rôl hon.<br>7. Y gallu i gyfleu gwybodaeth gymhleth i gleifion/weithwyr proffesiynol.<br>8. Aelod da o dîm sy'n meddu ar y gallu i weithio'n annibynnol.<br>9. Trefnus iawn ac yn gallu cynllunio eich llwyth gwaith eich hun.<br>10. Y gallu i ddangos annibyniaeth sylweddol o ran ffocws a chyfeiriad mewn ymchwil – gan benderfynu 'beth, pam, pryd a chyda phwy' i fwrw ymlaen â'r gwaith.<br>11. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br>12. Y gallu i deithio mewn ardal ddaearyddol.<br>13. Gallu gweithio oriau hyblyg<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br><br>Gradd iechyd a/neu ymchwil glinigol neu gymhwyster ôl-raddedig |
| **Y Gymraeg Lefel** | Lefel 1 – 'ychydig' - ynganu geiriau Cymraeg. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd syml iawn (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi.). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Yr Athro Cathy Thornton c.a.thornton@abertawe.ac.uk<br><br>**Bydd angen darparu tystysgrif foddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau** |

ECU GENDER CHARTER
Athena SWAN
Silver Award

Stonewall CYMRU
DIVERSITY CHAMPION

HR EXCELLENCE IN RESEARCH

Swansea University
Prifysgol Abertawe